Ardal 1 Llanrwst / Capel Garmon – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Nos Iau 1 Hydref 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwr y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. I. Jenkins
Cyng. E. J. M. Thomas

1. Cyflwyniad

Rhoddodd DB gyflwyniad ar y cyfarfod gan esbonio'r drefn a'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar sut mae'r cynllun yn dod yn ei flaen a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Sesiwn cwestiynau ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

S: Nid yw 5pm yn amser da i gynnal y cyfarfod.
C: Beth mae 'addas i'r pwrpas' yn ei olygu? Sut mae'n cyd-fynd â gwahanol ardaloedd ac adnoddau?
A: Mae'r hyn a olygir gan 'addas i'r pwrpas' wedi ei nodi ar y taflenni data ar gyfer Llanrwst / Capel Garmon h.y. man gwlyb, man staff etc.
S: Mae rhai meini prawf sy'n gwneud adeilad ysgol yn addas i'r pwrpas yn amhriodol i ysgolion yn yr ardal wledig.
S: Amser amhriodol ar gyfer y cyfarfod hwn a dim ond wythnos cyn y cyfarfod y cafwyd y gwahoddiad.
A: Ymddiheuriadau am amser y cyfarfod ond yn ymwybodol nad oes amser delfrydol a bod y gwahoddiad yn fyr rybudd oherwydd y dyddiad cynnar yn y rhaglen o gyfarfodydd.
S: Mae Ysgol Capel Garmon wedi bod yn ceisio gwella ac wedi cael grantiau i wneud hyn, fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth addysg yn fodlon rhoi arian cyfatebol.
C: Cyfle ar gyfer ymgynghori pellach?
A: Gallwch wneud trwy fynd i'r wefan ac anfon sylwadau ar e-bost neu trwy'r post.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol penodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd.

Sesiwn cwestiynau ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Pwy sy'n penderfynu ynghylch capasiti ysgol?
A: Mae capasiti ysgol yn seiliedig ar arwynebedd llawr ac fe'i cyfrifir trwy fformiwla Llywodraeth Cynulliad Cymru.
C: Mae'r data ar gyfer Capel Garmon yn anghywir yn y ddogfen. Capasiti'r ysgol yw 41 ac mae'r ddogfen yn nodi 60. Pryderus fod Capel Garmon yn cael ei gyflwyno'n negyddol i'r cyhoedd yng

Nghonwy. Nid yw'n deg fod y sir gyfan yn gweld y camgymeriad hwn ac nad yw'n cael ei gywiro. Sut fydd hyn yn cael ei gywiro?

A: Mae'r fersiwn ar y rhyngrwyd o'r ddogfen wedi ei newid i 41.

C: Pam mae Trefriw, Bro Gwydir a Chapel Garmon wedi eu grwpio gyda'i gilydd?

A: Yn seiliedig ar leoliad, yn ddaearyddol.

S: Pryder fod angen defnyddio'r bont i fynd i Lanrwst o Drefriw, a gall hyn fod yn broblem o ystyried llifogydd.

A: Nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud ond bydd y pwynt hwn yn cael ei ystyried.

S: Angen meddwl am faterion ansoddol nid dim ond y ffeithiau a gyflwynwyd.

A: Cesglir y dystiolaeth ansoddol trwy'r gweithdy.

S: Pryderon nad oes digon o amser i fynd trwy'r holl wybodaeth.

A: Penderfynwyd ar ddwy awr trwy'r Cyngor a theimlir y byddai hyn yn ddigon.

C: A yw newid yn yr ardal yn anorfod?

A: Nid yw'r 'status quo' yn gynaliadwy.

S: Felly rhaid i ni ganfod y ffordd orau ymlaen ar gyfer yr ardal hon.

C: Yn hytrach na gweithio mewn grwpiau pam na allwn gael un drafodaeth

A: Mae'n well ysgrifennu barn pawb a chael adborth

S: Teimlir y dylai'r cyflwyniad dechreuol roi mwy o bwyslais ar y safonau addysgol da yn ysgolion Conwy.

Eglurodd GT y gweithdai a gofynnwyd i bob ysgol drafod y saith taflen.

3. Adborth Gweithdy

Capel Garmon

Adeiladau

- Mae gennym lyfrgell, man TGCh, man gwlyb, llyfrgell, ystafell staff
- Gallwch gael yr adeilad hardd mwyaf addas i'r pwrpas yn y wlad, ond ni fydd hyn yn gwneud yn iawn am golli dosbarthiadau llai, llai o sylw unigol ac adnabod eich disgyblion. Yn bennaf yr effaith difrodus y caiff cau ysgol ar bentrefi gwledig.
- Methiant y cyngor i roi arian cyfatebol wedi arwain at ddiffyg adnoddau (£5,000) (a all yn ei dro arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion)
- Byddai £5,000 wedi rhoi ystafell staff, llyfrgell a man salwch i ni.
- Mae'r adeilad ei hun yn adeilad ysgol traddodiadol gyda'i hanes ei hun – mae hun ar ben ei hun yn adnodd addysgu gwerthfawr.
- Mae'r adeiladau'n gadarn
- Ni all y meini prawf 'addas i'r pwrpas' fod yn addas i bawb!!
- Byddwn yn defnyddio'r llyfrgell symudol fel ychwanegiad i'n llyfrgell ni.
- Man chwarae meithrin caeedig yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.
- Nid oes gennym unrhyw broblemau traffig (llawer llai na mewn tref)
- Nid yw rheolau adeiladu Ewropeaidd/Llundain yn golygu unrhyw beth mewn ardal amaethyddol.

Defnydd cymunedol o'r adeiladau

- Mae'r ysgol wedi ymgeisio am grant cymunedol y llynedd (2008) ar gyfer gliniaduron i'w defnyddio yn yr ysgol a defnydd cymunedol ond fe'i

gwrthodwyd. Mae'r ardal yn fodlon codi arian ar gyfer y cyfleusterau hyn fel y gellir eu rhannu gan y disgyblion a'r trigolion.
- Gellir cynnal gwersi Cymraeg a gwersi cyfrifiaduron yn ogystal â chyfarfod cymunedol yn yr ysgol.
- Clwb coginio
- Clwb brecwast
- Urdd – rhieni yn helpu.
- Mae'r adnodd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Os byddwch yn ei gau/ei ddymchwel ni ellir ei ddefnyddio ac ni ddaw byth yn ôl.

<u>Gwerthoedd ysgolion gwledig</u>
- Fel cymdeithas gref byddwn yn ymdrechu'n ychwanegol i ariannu adnoddau.
- Yr unig gyfleuster arwyddocaol yn yr ardal. Hanfodol ar gyfer ardaloedd gwledig.
- Ni ddarperir unrhyw gyfleusterau eraill yn y pentref h.y. canolfan hamdden, llyfrgell (rheolaidd), dim bysiau rheolaidd, dim ailgylchu digonol.
- Ni cheir llawer am dreth y cyngor heblaw'r ysgol, er mae gan drefi eraill bob math o gyfleusterau.
- Mae dosbarthiadau llai (llai na 30) yn well! Mae 30 yn gyfyngiad a orfodwyd ac nid yn rhywbeth i weithio tuag ato.
- Mae'n gyfleuster estynedig
- Mae gwerthoedd yr ysgol yr un fath a gwerthoedd y teulu
- Mae'n deall anghenion ardal amaethyddol
- Mae'n helpu'r plant i ddeall yr ardal ble maent yn byw. Mae'r plant yn dysgu beth a olygir i fod yn Gymry.
- Maent yn dysgu parch oherwydd ystod oed ehangach
- Datblygu parch at yr ardal
- Pwysleisio manteision ac amcanion addysg Gymraeg

<u>Yr ysgol fel mantais i'r ardal</u>
- Fe'i defnyddir fel adnodd cymunedol h.y. gwersi Cymraeg, gwersi cyfrifiaduron (bydd yr ardal leol yn codi'r arian ar gyfer y cyfrifiaduron)
- Yr adnodd pwysicaf yn y pentref sy'n dod a phawb ynghyd.
- Mae creu gwell ardaloedd yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Gymru wledig" T29 Cynllun Datblygu Gwledig "ble ceir... amglychedd dymunol a diogel a rhwydweithiau cymdeithasol actif a chynhwysol"
- Man cyfarfod sy'n dod a'r ardal ynghyd
- Rydym ni (y trigolion lleol) eisoes wedi dangos y gallwn ac y byddwn yn ymroi arian sylweddol ar gyfer gwella'r ysgol h.y. codi £10,000 sydd ei angen ar gyfer ystafell aml-bwrpas-staff, anghenion arbennig, man tawel, cyfarfodydd etc.
- Unwaith byddwch yn cau ysgol mewn ardal, byddwch yn ei cholli a ni ddaw yn ôl.

<u>Addysg</u>
- Dim ond llinellau ar fap yw dalgylchoedd. Heddiw mae pobl yn teithio mwy oherwydd mwy o resymau (gwaith etc) felly mae'r llinell dalgylch yn cyflwyno darlun anghywir.
- Mae dosbarthiadau bach yn beth da!
- Mwy o sylw unigol – dylid ei groesawu a'i annog

- Mae dosbarthiadau cymysg yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol a ni ddylid eu portreadu fel annymunol. (hyrwyddo hyder a sgiliau cymdeithasol)
- Mae nifer o deuluoedd yn dewis yr ysgol hon gan ei bod yn fach a'r holl resymau uchod.
- Dosbarthiadau llai yn cynnig addysg gyflawn ble mae'r athro yn adnabod anghenion unigol pob plentyn ac yn gallu ei diwallu'n llawn.
- Plant eisiau dod i'r ysgol – hapus i ddod am eu bod yn cael cefnogaeth.

Anghenion a lles plant

- Mae anghenion pob plentyn yn cael eu trin yn llawn gan fod yr athrawon yn ymwybodol o gefndir ac anghenion y plant
- Ysgrifennodd un rhiant: sylweddolwyd ar anawsterau sylweddol fy mhlentyn yn fuan iawn ar ôl cyrraedd yr ysgol a chafwyd eu trin yn syth. O ganlyniad mae ei ddarllen a'i ysgrifennu wedi gwella++
- Addysgir y plant trwy gyfrwng y Gymraeg ac maent yn gallu ei siarad gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd
- Bydd unrhyw resymoli (cau) yn cael effaith enfawr/effaith trawmatig ar ddatblygiad ein plant
- Mae gan bob plentyn lais
- Mae safonau ymddygiad yn uwch mewn ysgolion bach, yn arbennig ysgol fel Capel Garmon
- Mae'r holl blant yn gofalu am ei gilydd ac maent yn cael eu magu i barchu cymdogion a thrigolion lleol
- Mae'n darparu synnwyr o hunaniaeth sy'n 110% Cymreig
- Mae pob plentyn yn blentyn hapus ac mae bob plentyn yn teimlo'n ddiogel
- Gellir ymdrin ag achosion o fwio yn gyflym ac yn effeithiol oherwydd dosbarthiadau bach
- Mae plant yn cael eu magu gyda pharch ac ni ellir mesur hyn o fewn ffigyrau mae'r ALl yn eu casglu
- Mae'r cyflwyniad i addysg a'r diwylliant a geir yng Nghapel Garmon yn amhrisiadwy – yn anffodus ni fesurir hyn

Cymdeithasol

- Gweler pwyntiau a wnaed ar y daflen "yr ysgol fel mantais i'r ysgol" ac "anghenion a lles plant"
- Llai o broblemau cymdeithasol ac ymddygiad
- Dod a'r gymdeithas ynghyd ac mae pawb yn helpu ei gilydd o oedran ifanc
- Pwyntiau cymdeithasol i ardaloedd
- Sicrhau parhad a dyfodol yr Iaith Gymraeg yn ein hardaloedd - ble mae'r Iaith Gymraeg yn gryf rŵan ac yn fyw.
- Bod yn ddwyieithog yn codi cyfleoedd am waith pan fyddant yn oedolion
- Plant yn dod i adnabod trigolion yr ardal
- Dim problemau troseddol yn y pentref
- Digwyddiadau o fewn yr ysgol yn dod a'r gymdeithas gyfan at ei gilydd
- Cydweithio gwych gydag elusen Bro Garmon
- Yr Odyn yn fodd o gyflwyno gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol i'r gymdeithas gyfan

Ysgol Trefriw

Defnydd cymunedol o'r adeiladau

- Ti a Fi
- Cylch Meithrin
- Ymweliadau brenhinol
- Dosbarthiadau cyfrifiaduron
- Dosbarthiadau Cymraeg
- Clwb coginio
- Clwb ar ôl ysgol
- Clwb brecwast
- Urdd
- Digwyddiadau a chyfarfodydd codi arian
- Cyngherddau
- Nosweithiau ffilm yn y gymuned
- Clwb garddio

Yr ysgol fel mantais i'r ardal

- Y plentyn yn cael eu trin fel unigolyn
- Poblogaeth gweddol ifanc
- Tai rhatach a thai cymdeithasol – helpu teuluoedd ifanc yn y pentref
- Ysgol yn adlewyrchu dwyieithrwydd
- Colli ysgol yn golygu costau uwch i'r awdurdod lleol.
- Prisiau tai yn gostwng – treth cyngor yn lleihau
- Heb ysgol mae'r pentref ond yn addas ar gyfer pobl hŷn a pherchnogion ail gartrefi
- Annog y Gymraeg
- Pan mae plant yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau'r ardal mae'n annog rhieni a'r bobl leol i gymryd rhan
- Yr ysgol yw curiad calon yr ardal

Cymdeithasol

- Ymddygiad gwrth cymdeithasol yn gysylltiedig ag ysgolion mwy. Mewn ysgolion llai plant yn edrych ar ôl ei gilydd.
- Effeithio ar fusnesau lleol, capeli, neuaddau pentref os byddwn yn colli ysgol Trefriw.
- Ti a Fi a'r Ysgol Feithrin – pwysig cynnwys pobl newydd yn yr ardal leol, pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg
- Meithrin teimlad o berthyn i'r ardal gyfan. Ysgol Trefriw yn cynnwys y trigolion mewn gweithgareddau codi arian – a gefnogir gan fusnesau lleol etc.
- Y gymdeithas yn cydnabod gwerth yr ysgol i gadw'r pentref yn fywiog
- Canolbwynt ar gyfer pob digwyddiad yn yr ardal
- Canfod anghenion pobl/rhieni a chynnig rhwydwaith cefnogol. Dull mwy personol, gan fod staff yn teimlo yn rhan o'r gymdeithas. Mewn ysgol fwy ni nid oes cymaint o ymroddiad i'r gymdeithas.

Adeiladau

- Pam nad yw'r Sir wedi "cynnal" rhai ysgolion? Beth yw eich meini prawf chi ynglŷn â gwariant ar adeiladau?
- Mae hen adeilad yn adnodd addysgu ar ben ei hun gan roi'r cyfle i gael blas ar y cwricwlwm.
- Nid yw'r ysgol wedi cael unrhyw fuddsoddiad cyfalaf.

Addysg

- Mae gan bob plentyn hawl i addysg yn eu cymuned

- Haws adnabod plant ag anghenion arbennig mewn dosbarthiadau llai.
- Mae mwy o sylw unigol yn cynhyrchu plant mwy hyderus a thrin anghenion
- Haws hybu'r Gymraeg mewn ysgolion llai
- Gall plant gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau mewn ysgolion llai – cwricwlwm ehangach
- Arolygon sy'n gyson dda yn awgrymu fod yr addysg yn dda
- Rhieni yn gallu trafod materion yn ymwneud â chynnydd/problemau eu plentyn.

<u>Gwerthoedd ysgolion gwledig</u>
- Mwy o fwlio mewn ysgolion mwy
- Ysgolion gwledig – edrych ar ôl ei gilydd
- Mwy o berchnogaeth o'r ysgol leol
- Amgylchedd naturiol i'r cyfnod sylfaen

<u>Anghenion a lles plant</u>
- Darperir yn well ar gyfer plant ag anghenion arbennig mewn ysgol lai – ddim yn cael eu gwahanu
- Llai – mwy o gymorth a sylw
- Cludiant - cyraeddadwy, hyd y diwrnod ysgol, mannau casglu, diogelwch, llifogydd, plant dan 5

<u>Ysgol Bro Gwydir</u>

<u>Anghenion a lles y plant</u>
- Cysondeb Sirol rhwng pob ysgol
- Cydweithio
- Sicrhau diogelwch
- Creu lle addas a diogel
- Cysylltu gyda phobl allanol e.e. gweithwyr cymdeithasol
- Cadw cysylltiad gyda rhieni

<u>Defnydd cymunedol o'r adeiladau</u>
- Clybiau ar ôl ysgol/clwb brecwast
- Yr Urdd
- Ffermwyr Ifanc
- Eisteddfod

<u>Gwerthoedd ysgolion gwledig</u>
- Gwerthoedd pob ysgol i ddarparu'r gorau
- Cysondeb a safbwynt y Sir
- Canolbwynt cymdeithas

<u>Yr ysgol fel mantais i'r ardal</u>
- Clybiau ar ôl ysgol
- Defnydd o'r Neuadd gan y Gymuned
- Cylch Ti a Fi
- Cyfarfodydd
- Defnydd o gae chwarae

<u>Cymdeithasol</u>
- Hapusrwydd

- Awyrgylch hapus a chyfeillgar
- Digwyddiadau cymdeithasol
- Mynd allan i'r gymuned
- Clwb ar ôl ysgol/clwb brecwast
- Ysgol yn helpu'r gymuned
- Cyswllt agos
- Gohebiaeth gyson i rieni a staff
- Sgiliau cymdeithasol
- Timau/clybiau ar ôl ysgol

Addysg
- Addysg gyflawn
- Lefel o ddysgu
- Gwahaniaethu
- Arbenigedd
- Anghenion Arbennig
- Canlyniadau
- Cyrraedd llawn potensial
- Disgyblaeth

Adeiladau
- Neuadd ddigonol (cynnwys neuadd gyfagos)
- Dosbarthiadau addas
- Digon o le
- Diogelwch
- Maint buarth/buarth meithrin
- Ystafell feddygol
- Cae Chwarae
- Coedlan/Gardd/Ardal tu allan
- Ystafell Gyfarfod/AAA

Crynhoi – prif bwyntiau

Trefriw
- Dim eisiau cau ysgol
- Ysgol yn ganolog i'r Gymuned
- Teimlad da yn yr ysgol
- Plant yn rhan o'r gymdeithas
- Parch
- Dim problemau cymdeithasol
- Ysgol = curiad calon y gymuned

Bro Gwydir
- Gwerthoedd yr un fath

Capel Garmon
- Teulu estynedig
- Rhannu gwerthoedd
- Parhad o werthoedd
- Ysgol yn sylfaenol
- Angerdd
- Maint dosbarthiadau – cyfyngu/capio

- Mantais gyllidol v mantais addysgol
- Amgylchedd dysgu cadarnhaol
- Plant hŷn yn meithrin plant eraill - tadol
- Nifer o deuluoedd yn dewis ysgolion bach – cadwch y dewis
- Ymroddiad cymunedol - £ - wedi ei ddogfennu – gwneud mwy
- Creu gwell cymunedau – Cynllun Gwledig Llyw Cynulliad Cymru
- Ar ôl cau – ni ddaw byth yn ôl
- Natur gylchol poblogaeth wledig dros amser
- Angen denu pobl ifanc yn ôl
- Yr ysgol yw'r unig gyfleuster ar garreg y drws

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Rydych chi'n dweud na wnaed unrhyw benderfyniadau, ond teimlwn fod penderfyniadau wedi eu gwneud ac rydym angen gwybod beth ydynt?
A: Nid yw dyfodol pob ysgol wedi ei benderfynu.
C: Pam fod angen newid?
A: Nid yw'r 'Status quo' yn gynaliadwy
S: Nid yw'r meini prawf 'addas i'r pwrpas' yn berthnasol i'n hysgolion ni
A: Mae addysg wedi edrych ar y meini prawf ac wedi nodi beth sydd ar goll yn yr ysgol. Dyma'r ffeithiau ond nid ydynt yn ystyried y materion ansoddol.
C: Os nad yw ein hysgolion yn cyfarfod y safonau addas i'r pwrpas hyn, beth fydd yn digwydd?
A: Os yw ysgol yn penderfynu nad ydynt eisiau bod yn addas i'r pwrpas, bydd unrhyw adroddiadau Estyn yn y dyfodol yn cymryd hyn i ystyriaeth.
C: Beth yw'r gost i'r Awdurdod i ddod a phob ysgol at safon addas i'r pwrpas?
A: Mae arian cyfyngedig ar gael i dalu am addasiadau. Mae angen strategaeth i flaenoriaethu sut i wario'r arian. Dros y 12 mlynedd diwethaf yng Nghonwy, mae bron i bob ysgol wedi cael rhywfaint o fuddsoddiad.
: O ran diffinio angen, nid oes angen cael rhywbeth sy'n addas i'r pwrpas, mae'n rhywbeth a fyddai'n braf ei gael.
A: Os cawn adborth o bob cyfarfod nad yw'r meini prawf addas i'r pwrpas yn briodol, yna byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth. Nid y rhestr yw'r unig beth a ddefnyddir i gael yr arian, mae defnydd cymunedol hefyd yn bwysig felly bydd hyn yn cael ei ystyried
C: A allwn gyflwyno opsiynau eraill megis ffederaleiddio yn hytrach na chyfuno'r holl ysgolion?
A: Cewch mae pob opsiwn yn cael ei ystyried
S: Ar ddiwedd y dydd arian sy'n gyrru hyn
A: Mae hyn yn digwydd oherwydd nifer y disgyblion yn yr ysgolion a'u heffaith ar y gyllideb.
C: Sawl ysgol yn y sir ydych yn gobeithio eu cau?
A: Dim ffigwr penodol – angen canfod y ffordd orau o drefnu ei hysgolion a gwneud y mwyaf o adnoddau
C: A allwn fod yn greadigol yn hytrach na dim ond cau ysgolion?
A: Nid yw'r strwythur presennol yn gynaliadwy ond nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud felly croesawir opsiynau creadigol
S: Os nad oes unrhyw arian, ni allwch fforddio opsiynau creadigol

C: A yw'r cynllun hwn yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu gwledig?
A: Gweithio ochr yn ochr ond wedi gweithio yn agos â Datblygu Cymunedol ac yn gofyn iddynt hwy edrych ar ardaloedd ar gyfer adolygiad dechreuol o ran buddsoddi
C: Pam nad yw Betws y Coed ar gyfer adolygiad dechreuol?
A: Edrychir ar ardaloedd yn ddaearyddol, angen cynnig y cyfleoedd gorau i bob plentyn. Ceisio edrych y tu allan i'r bocs ar gyfer opsiynau creadigol h.y. ffederaleiddio ac edrych ar ysgolion sydd eisoes yn rhannu rhai adnoddau. Wedi ceisio bod yn gyson gyda phob ysgol gydag 'addas i'r pwrpas' ond yn derbyn na fydd y rhestr yn addas ar gyfer pob ardal a bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Gall unrhyw newidiadau gymryd 10-15 mlynedd i'w gweithredu.
C: Pam nad yw Ysgol Llanefydd ar gyfer adolygiad dechreuol?
A: Yn syml oherwydd ei leoliad a'r ffaith nad oes unrhyw ysgolion eraill gerllaw.
S: Angen ystyried yn ofalus anfon disgyblion o Drefriw i Lanrwst
C: Mae o leiaf dau athro ym mhob ysgol ar hyn o bryd, a fydd hyn yn newid yn y dyfodol?
A: Efallai bydd rhaid er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael
C: Deall eich bod yn ceisio gwneud y gorau o sefyllfa wael ond rhaid trafod yn galetach gyda LlCC
A: Trafod gyda LlCC yn gyson
S: Mae'r gwaith hwn eisoes yn cael effaith negyddol ar ysgolion bach gwledig gan eu bod yn meddwl eu bod yn mynd i gau. Angen gweiddi mwy am beth mae ysgolion gwledig yn eu gwneud a'u cyflawni.
C: Beth am yr Aelodau Lleol, pa gefndir sydd ganddynt mewn addysg i wneud y penderfyniad ar y strategaeth derfynol?
A: Bydd y cynghorwyr yn ystyried yr holl bwyntiau a wnaed a'u defnyddio i wneud eu penderfyniad terfynol. Gallwch gysylltu â'ch aelod lleol i fynegi eich safbwyntiau.
S: Weithiau yn meddwl fod penderfyniadau eisoes wedi eu gwneud tu ôl i ddrysau caeedig.
A: Rhaid gwneud pob penderfyniad trwy ymgynghori â'r cyhoedd. Ar ôl ysgrifennu'r strategaeth ddrafft, byddwn yn ymgynghori ar hwn hefyd
S: Po hiraf yw'r broses, yr anoddaf y bydd i ysgolion llai gan na fydd rhieni yn anfon eu plant yno oni bai eu bod yn gwybod eu bod yn ddiogel
A: Sylweddoli hyn ac yn ceisio symud cyn gyflymed a phosib. Bydd y strategaeth yn glir, bydd ymgynghoriadau ysgolion unigol ar yr opsiwn a gyflwynir ar gyfer yr ysgol honno
C: Sawl llythyr fyddai angen ei anfon at LlCC er mwyn i'r AALl gael mwy o arian?
A: Ansicr ond yn sicr byddai angen cael strategaeth
C: A ydych wedi trafod cau unrhyw ysgol benodol?
A: Na nid yw hyn wedi digwydd o fewn amserlen y cynllun moderneiddio

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

<u>Maes parcio</u>

- Mae Trefriw eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion gwledig eraill h.y. Dolgarrog, Betws y Coed, Tal y Bont etc. Pam yr angen i symud i Lanrwst? Efallai ffederasiwn o ysgolion bach.

- Cydnabod gwerth ysgolion gwledig - angen atebion dychmygus megis ffederasiwn neu rannu adnoddau ac arbenigedd ond CADWCH SAFLEOEDD YSGOLION AR AGOR neu bydd y gymdeithas yn marw.

Wal syniadau

- Mae'r 'status quo' yn opsiwn
- Dywedwch fwy wrthym am yr opsiynau rydych wedi eu hystyried
- Edrychwch ar sut mae ein plant yn cyflawni'n addysgol. Ni thrafodwyd hyn yn y cyfarfod - gall newidiadau mawr gael effaith negyddol. O'r hyn ddeallaf mae safon yr addysg yng Nghonwy yn uchel - peidiwch â difrodi hyn.
- Hyrwyddo ysgolion gwledig a'u cyraeddiadau. Mae ysgolion gwahanol yn addas ar gyfer plant gwahanol.
- Lefelu niferoedd rhwng ysgolion - peidiwch â gwthio maint dosbarthiadau i'w terfyn.
- Cyhoeddusrwydd negyddol ar gau ysgolion eisoes yn atal rhieni newydd rhag anfon eu plant i ysgolion bach a chynyddu eu niferoedd.
- Cwricwlwm newydd yn annog symud/dewis rhwng gweithgareddau yn y dosbarth – nid oes rhaid i lyfrgelloedd/cyfleusterau fod mewn 'ystafell' er mwyn i hyn ddigwydd.
- Pam bod y cyfarfod wedi ei gadeirio yn Saesneg gan rywun di-Gymraeg?
- Cryfhau a chefnogi cydweithio rhwng ysgolion
- Edrych ar adnoddau sydd gennych yn barod - gall cyfleusterau llyfrgell gael eu cefnogi'n rhannol gan y gwasanaeth llyfrgell symudol - gan gefnogi gwasanaeth cyhoeddus arall.
- Beth am leihau maint dosbarthiadau mewn ysgolion mwy trwy gludo plant i lenwi rhai llai? Mae ein hadroddiadau Estyn yn dangos fod ysgolion bach yn llwyddiannus. Bydd hyn yn creu cronfa ehangu er mwyn cyfarfod anghenion polisi adfywio Conwy - mwy o bobl ifanc = mwy o blant.
- Ysgolion eisoes yn cydweithio i ddarparu gweithgareddau ar y cyd – gellir annog hyn ymhellach gan barhau i gadw hunaniaeth ein hunain (e.e. chwaraeon/drama)

Wal bryderon

- Nid yw'r cyfarfod yn ddigon hir i glywed safbwyntiau – angen mwy o amser
- Mae "rhywbeth" yn gorfod newid yn benderfyniad!!
- Dinistrio cymunedau gwledig
- Ni fydd pobl/teuluoedd yn dod i fyw i bentrefi ble nad oes ysgol
- Os yw ardaloedd yn colli eu calon bydd hyn yn newid y pentref. Teuluoedd yn symud allan, preswylwyr cyfoethog o'r ddinas yn prynu ail gartref, y dafarn yn cau, neb i fynd yno. Ble mae'r pentrefi Cymreig hyfryd bryd hynny?
- Os ydych yn cau ysgolion gwledig bydd fy mhlant yn llai tebygol o ddychwelyd pan fyddant yn hŷn!
- Rydych yn creu sefyllfa ysgol fach yn erbyn ysgol fawr.
- Yr argraff a roddir yw bod penderfyniadau eisoes wedi eu gwneud. Ymddengys nad yw'r siaradwyr wedi paratoi ac yn cynnal yr 'ymgynghoriad' er mwyn lleihau'r effaith.
- Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer yr ysgolion a gaeir? Tai i deuluoedd ifanc heb unlle i anfon eu plant?